GADWYN BRO

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych

Gorffennaf ac Awst 2017 ***Rhif 077***

Mae wedi bod yn fis creulon iawn ym Manceinion ac yn Llundain. Ni allwn ddeall meddylfryd yr eithafwyr IS nad ydynt yn rhoi unrhyw werth ar eu bywydau eu hunain heb sôn am fywydau'r bobl ddiniwed maen nhw'n eu lladd efo'u bomiau, eu gynau a'u cyllyll. Collodd cymaint o bobl eu bywydau, rhai ohonynt yn blant ifainc nad oedden nhw ond megis cychwyn ar daith bywyd, a hynny am eu bod allan yn mwynhau eu hunain mewn cyngerdd neu yn cerdded strydoedd prif ddinas Lloegr yn mwynhau'r tywydd braf a'r golygfeydd godidog. Pa fath o bobl sy'n gallu bod mor greulon ac wedyn dweud mai gweithredu yn enw Allah roedden nhw?

Roedd y tân ofnadwy yn Nhŵr Grenfell yn stori wahanol. Yn achos Grenfell, roedd esgeulustod ar raddfa fawr ar ran yr awdurdodau yn ffactor amlwg ynghyd ag anwybyddu diogelwch y trigolion er mwyn arbed ychydig filoedd o bunnoedd. Lledaenodd y tân mor gyflym a chollodd nifer fawr eu bywydau tra bod bywydau eu teuluoedd a'u ffrindiau wedi newid am byth a hynny o fewn dim o amser.

Ddaeth unrhyw obaith o gwbl o'r tri digwyddiad ofnadwy? Tra bod llawer o'r gwleidyddion yn llwytho'r bai ar eraill ac yn addo pob math o newidiadau - addewidion gwag ac oeraidd ar y cyfan, mae'n debyg - roedd ymateb y bobl gyffredin yn wahanol iawn. Wrth gwrs roedd elfen gref o ddicter a galw am atebion a hyd yn oed am ddial, ond y prif beth oedd y ffyrdd yr aeth pobl y gymuned leol, yn ffrindiau, yn berthnasau ac, yn aml, yn bobl heb gysylltiad agos oedd yn teimlo bod yn rhaid iddynt wneud rhywbeth, unrhyw beth, i leddfu poen y trueiniaid a oedd wedi dioddef yn yr ymosodiadau terfysgol a'r tân anferth. Dyna'r gobaith a ddaeth o anobaith, dewrder a gwaith diflino y gwasanaethau brys, sgil a gofal y staff meddygol, yr holl fwyd a dillad a roddwyd, y cynigion am lety, y glust oedd mor barod i wrando a diffuantrwydd a chynhesrwydd y cydymdeimlo. Hyd yn oed yng nghysgod tywyll ymosodiadau a thrychinebau mor ofnadwy o greulon, mae goleuni gobaith yn disgleirio.

Cynhelir Cinio'r Fro
nesa
Dydd Gwener Medi 8fed
am 12 dydd yn Festri
Capel Mawr

TREFNIADAU'R EGLWYSI

BODFARI

Dydd Sul, Gorffennaf 2 - Sul Gŵyl Trefnant
Dydd Sul, Gorffennaf 9 -
Dydd Sul, Gorffennaf 16 -10.00 – Mrs Helena Jones, Prestatyn
Dydd Sul, Gorffennaf 23 – 10.00 – Trefniant Lleol

Anfonwn ein cofion at bawb sydd ddim yn dda ei hiechyd, a byddant yn well yn fuan.

BRWCWS

Dydd Sul, Gorffennaf 2ail
Sul Gŵyl - Neuadd Trefnant.
Dydd Sul, Gorffennaf 9ed
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Bernard Thomas am 2.00
Dydd Sul, Gorffennaf 16eg
Ysgol Sul am 10.00
Parch.Eric Jones am 2.00
Dydd Sul, Gorffennaf 23ain
Ysgol Sul am 10.00
Parch. R.Glyn Jones am 2.00
Dydd Sul, Gorffennaf 30ain
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Christopher Prew am 2.00

Awst – gweler trefniadau capeli'r dref.

Y DYFFRYN

Dydd Sul, Gorffennaf 2 – Gŵyl yn Trefnant
Dydd Sul, Gorffennaf 9fed 10.00 – Mr Dennis Davies
Gwasanaeth/Ysgol Sul Plant (Ysgol Sul Oedolion 9.30)
Emyn a darllen – Ceri/Ian
Emyn a darllen y plant/ieuenctid – Ysgubor Wen
Organ – Helen
Blodau – Bethan
Dydd Sul, Gorffennaf 16eg – 11.15 – Parch Nesta Davies
Gwasanaeth/Ysgol Sul Plant (Ysgol Sul Oedolion 10.30)
Emyn a darllen – Gwilym
Organ – Glenys
Blodau – Ann
Dydd Sul, Gorffennaf 23ain-10.00 – Gwasanaeth gan yr Ieuenctid
Gwasanaeth i'r teulu
Organ – Ann
Blodau – Margaret E
Dydd Sul, Gorffennaf 30ain – 10.00 – Trefniant Lleol
Gwasanaeth i'r teulu
Organ – Iona
Blodau – Helen S

Awst
Dydd Sul, Awst 6ed – Gweler Cadwyn Bro
Dydd Sul, Awst 13eg – Gweler Cadwyn Bro
Dydd Sul, Awst 20fed – Gweler Cadwyn Bro
Dydd Sul, Awst 27ain – Gweler Cadwyn Bro

GELLIFOR

Dydd Sul, Gorffennaf 2 – Gŵyl yn Trefnant

Dydd Sul, Gorffennaf 9fed

10.00 – Sgwrs a Phaned
Gwasanaeth Dechreuol – Marian a Jen i ofalu
11.15 – Mr Dennis Davies
Llywydd - Gareth
Gwasanaeth Dechreuol – Bryn Tirion
Ysgol Sul – Alaw
Offeryn – Richard
Blodau – Hafodty

Dydd Sul, Gorffennaf 16eg –

10.00 – Parch Nesta Davies
Llywydd – Nic
Gwasanaeth Dechreuol – John
Ysgol Sul – Bryn Bedw
Offeryn – Margaret
Blodau – Hafodty

FRON

Llywydd y Mis – Mrs Gaynor Prew

Dydd Sul, Gorffennaf 2 – Gŵyl yn Trefnant
Dydd Sul, Gorffennaf 9fed
10.00 – Capel Mawr – Parch Bernard Thomas
5.30 – Fron – Parch Bernard Thomas
Offeryn Eiri Jones
Dydd Sul, Gorffennaf 16eg
10.00 – Fron – Parch Eric Joes, Bangor
5.30 Capel Mawr – Parch Eric Jones, Bangor
Offeryn – Megan WIlliams
Dydd Sul, Gorffennaf 23ain
10.00 – Capel Mawr – Parch R. Glyn Jones
5.30 – Fron – Parch R. Glyn Jones, Llanrwst
Offeryn – Iona Edwards
Dydd Sul, Gorffennaf 30ain
10.00 – Fron – Parch Christopher Prew
5.30 – Capel Mawr – Parch Cristopher Prew
Offeryn – Eiri Jones

AWST

Dydd Sul Awst 6ed
10.00 – **Capel Seion** – Oedfa (Undebol)
Parch Brian Wright Cyffordd Llandudno
Dydd Sul, Awst 13eg
10.00 – Lôn Swan (Undebol)
Dydd Sul, Awst 20fed
10.00 – Fron (Undebol) i'w drefnu
Offeryn Megan Williams
Dydd Sul , Awst 27ain
10.00 – Capel Pendref (Undebol)

Dim oedfa'r nos yn ystod mis Awst

Dechrau Canu – Mrs Gwyneth Morris

Blodau yn gyfrifol Eleri Jones
Gorffennaf 2
9 - Dilys Davies
16
23 – Eleri Jones
30 – Nia Angharad Jones
Blodau yn gyfrifol – Mrs Gwyneth Morris
Awst 20 -

Croesawu
9 – John Howatson
16 – Wendy Lloyd Jones
23 – Aelwyn Lloyd
30 – Erfyl Williams

Anfonwn ein cofion at bawb o'n haelodau sy'n methu mynychu'r oedfaon oherwydd gwaeledd ac yn arbennig at Mrs Eurwen Pierce sydd wedi treilio cyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd ac yn awr yn Infirmari Dinbych ac hefyd fe wnaeth Mrs Gwenda Owens dreulio noson yn Ysbyty Glan Clwyd. Brysiwch wella.

Dymuniadau gorau a phob bendith i Nia Angharad Jones, merch John Geraint a Eiri Jones ar achlysur ei phriodas ar Gorffennaf 29ain i Sam Jones, Lon Postws

Y CAPEL MAWR A SEION

GORFFENNAF

Dydd Sul, Gorffennaf 2
10am – Sul Y Fro i'r teulu yn Nhrefnant

Dydd Sul, Gorffennaf 9
10am –Y Capel Mawr – Y Parch. Bernard Thomas, Abergele
5.30pm – Y Fron – Y Parch. Bernard Thomas, Abergele

Dydd Llun, Gorffennaf 10
Cyfarfod Gweddi am 1.30pm

Dydd Sul, Gorffennaf 16
10am – Y Fron – Y Parch. Eric Jones, Penrhosgarnedd
5.30pm – Y Capel Mawr– Y Parch. Eric Jones, Penrhosgarnedd

Dydd Sul, Gorffennaf 23
10am – Y Capel Mawr – Y Parch. Richard Glyn Jones, Llanrwst
5.30pm - Y Fron - Y Parch. Richard Glyn Jones, Llanrwst

Dydd Sul Gorffennaf 30
10am – Y Fron -Y Parch. Christopher Prew, Porthmadog
5.30pm - Y Capel Mawr - Y Parch. Christopher Prew, Porthmadog

Llywydd Y Mis: – Mrs Cheryl Williams

Wrth y Drysau:- I'w drefnu

Casglyddion:- I'w drefnu

Organyddion/Cyfeilyddion:-
Gorffennaf 9 – Mrs Dorothy Rogers
Gorffennaf 16 – Mrs Doris Williams
Gorffennaf 23 – Mrs Catrin Warren
Gorffennaf 30 - Mrs Dorothy Rogers

Rhoddir y Blodau gan:-
Gorffennaf 9 – I'w drefnu
Gorffennaf 23 – I'w drefnu

Llety'r Gweinidog
Gorffennaf 16 – Y Fron
Gorffennaf 23 - Y Capel Mawr
Gorffennaf 30 – Y Fron

DYMUNIADAU GORAU
Ar hyn o bryd y mae nifer o'n haelodau naill ai yn yr ysbyty neu newydd ddychwelyd adref o'r ysbyty, ac eraill yn gaeth i'w cartrefi. Anfonwn ein cyfarchion atynt gan obeithio y bydd y tywydd braf dros fisoedd yr haf o gymorth iddynt gryfhau a gwella.

AWST
Cynhelir y gwasanaethau boreol undebol canlynol yn ystod mis Awst.
*****Sylwer mai yng Nghapel Seion, Ffordd Henllan, y cynhelir yr oedfa gyntaf.**
Dydd Sul, Awst 6
Seion - 10am – Y Parch, Brian Wright, Cyffordd Llandudno
Dydd Sul, Awst 13
Lôn Swan – 10am – Mr Ifor Jones, Abergele
Dydd Sul, Awst 20
Y Fron - 10am – I'w drefnu
Dydd Sul, Awst 27
Pendref - 10am – I'w drefnu
Llywydd y Mis:- Mr Stan Lyall

PENTRE, PRION, GLYN

Gorffennaf 2017

Dydd Sul, Gorffennaf 2ail

Sul Gŵyl Neuadd Trefnant am 10.00

Dydd Sul, Gorffennaf 9fed

10.00 Prion - Parch Huw Dylan Jones

Dydd Sul, Gorffennaf 16eg

Dim gwasanaeth wedi ei drefnu
ond croeso i chi fynd efo'r ysgol Sul i
Gartref Coed Craig i ymweld â Eirlys
a chanu efo'r plant. Picnic/parc/traeth i ddilyn

Dydd Sul, Gorffennaf 23ain

10.00 Pentre – Parch Dafydd Rees Roberts Llandudno

Dydd Sul, Gorffennaf 30eg

10.00 Pentre - Parch Andras Iago
11.15 Prion - Parch Andras Iago
2.00 Capel y Glyn – Parch Andras Iago

Awst

dim gwasanaethau wedi eu trefnu ond o bosib
fydd Parch Andras Iago yn gwasanaethu yn ystod y mis

Bydd poster yn y siop i gadarnhau neu cysylltwch gyda Carys, Llinos, Deryl neu Nina

CYMORTH CRISTNOGOL Er gwybodaeth – casglwyd £835.00 yn ardal Pentre, Prion, Peniel a Saron
Diolch i bawb â gyfrannodd, ac i bawb â rannodd yr amlenni,

YSGOL SUL – Yn ystod gwasanaeth ym mis Mehefin, cyflwynodd y Parch Thomas Williams Henllan dystysgrifau
Gwaith Prosiect Henaduriaeth Dyffryn Clwyd i'r plant Ysgol Sul am eu gwaith ardderchog ar y teitl "Gwyrthiau", a thystysgrifau hefyd am fynychu Gweithdy llafar a chân o dan arweiniad Angharad a Lowri Ellis. Cawsant brynhawn arbennig yn y Parc Llanrhaeadr.

LLONGYFARCHIADAU – I Elin Pentre Llech ac Aled o Lansannan ar eu Priodas yng Nghapel y Pentre dydd Sadwrn hynod o braf ym Mis Mehefin. Dymunwn pob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd yng Nghae'r Felin

GLYN

Dydd Sul, Gorffennaf 30

Parch Ddr Andras Iago – 2.00

TREFNANT

MIS GORFFENNAF

Llywydd y Mis EIFION WILLIAMS

Dydd Sul Gorffennaf 2il

10.00 Sul Gŵyl y Fro yn Neuadd y Pentref Trefnant - dan Arweiniad Coleg y Bala

Picnic a Gweithgareddau i ddilyn Croeso cynnes i Bawb

Dydd Sul Gorffennaf 9fed

10.00 Parch. Ddr Elfed ap Nefydd Roberts

Bydd Aelodau o Ofalaeth Ardal Chwilog yn ymuno gyda ni yn y gwasanaeth a chawn eu croesawu gyda phaned a sgwrs wedyn

3.00 Parch. Ddr Elfed ap Nefydd Roberts

Blodau : Dorothy Jones

Dydd Sul Gorffennaf 16eg

10.00 Parch Harri Parri 11.00 YSO

3.00 Parch Harri Parri

Blodau : Glynwen Davies

Dydd Sul Gorffennaf 23ain

10.00 Parch John Jones

3.00 Gwasanaeth Gweddi a Mawl

Blodau : Glenys Blainey

Dydd Sul Gorffennaf 30ain

9.30 Taith yr Eglwys i "YR YSGWRN" - Cartref Hedd Wyn

Cynhelir gwasanaeth naill ai yn yr Ysgwrn neu un o gapeli Trawsfynydd. Croeso cynnes i Bawb

MIS AWST

Llywydd y Mis BET ROBERTS

Dydd Sul Awst 6ed - 10.00 Parch John Owen

Dydd Sul Awst 13eg – 10.00 Mr Dafydd Iwan

Dydd Sul Awst 20fed - !0.00 Mr Elwyn Ashford Jones

Dydd Sul Awst 27ain – 10.00 Parch Tudur Rowlands

Y GYMDEITHAS LENYDDOL I orffen y tymor eleni cafwyd noson bleserus iawn yn crwydro cefn gwlad cyn cael swper blasus yn Llannefydd. Arweiniodd Bryn a'r teulu ni o Drefnant i Bylchau, drwy ardal Rhydgaled i Moel Fodiar cyn swper yn yr Hawk and Buckle. Treuliasom ryw deirawr ar y siwrne gan aros mewn mannau strategol i dynnu lluniau a chymryd tro i fyny Moel Fodiar. Doedd dim taith a chwmni gwell l'w phrofi ar noson ryfeddol o braf ym Mis Mai - diolch Bryn. Diolch hefyd i bawb sydd wedi cyfrannu mewn unrhyw fodd i nosweithiau llwyddiannus y Gymdeithas drwy'r flwyddyn.

CYFARFOD GWEITHGAREDDAU Mae'r cyfarfodydd ar brynhawniau Llun wedi gorffen ddiwedd Ebrill tan fis Medi. Diolch am yr holl gefnogaeth ac edrychwn ymlaen i ail-ddechrau ym mis Medi.

TE MEFUS Diolch i bawb fu'n gyfrifol am y te prynhawn a gynhaliwyd yn Neuadd Trefnant ar Ddydd Sadwrn, Mehefin 10fed er budd Ymchwil Cancr. Diolch arbennig i Rhian Hughes a Bet Roberts am ysgogi'r holl wirfoddolwyr a fu'n gweithio drwy'r prynhawn yn gofalu am y lluniaeth, am greu arddangosfa, trefnu raffl ac i'r llu wnaeth gyfrannu rhoddion o bob math. Diolch i bob un o'r dyrfa enfawr a ddaeth i fwynhau'r te mefus, mwynhau'r gymdeithas hyfryd a chefnogi'r achos teilwng. Gwnaed elw o dros £1,300.00 . Diolch o galon i bawb.

CYFARCHION a DYMUNIADAU GORAU i holl aelodau yr Eglwys sydd wedi methu cyd-addoli gyda ni yn ddiweddar - hyderwn y cewch gyfle i ymgryfhau dros yr Haf. Bendith arnoch i gyd.

NEGES NESTA

Fel rhan o'm swydd yn Llywydd yr Henaduriaeth hyfryd oedd gweld Ymdrechion y plant i ddehongi y Gwyrthiau yn y Cyfarfod Gwobrwyo Yn Llanefydd ym mis Mai a diolchwn i'n Hathrawon Ysgol Sul am baratoi y Plant mor drwyadl a chynulleidfa deilwng i'w llongyfarch.

Llywydd y noson oedd Gwawr Cordiner a bu Arwel ag Awen Roberts yn canmol y cynnyrch. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan blant Llannefydd a chafodd y plant hwyl fawr yn chwarae gemau a chael parti yn Neuadd y pentref.

Ar fy ngwyliau'n ddiweddar ym Mhortiwgal gweles y Sgwter handi yma a meddwl tybed a fuasai hwn yn ffordd handi i fynd o le i le?

Hefyd, bum wrthi'n plannu pus pêr yn y potiau yn fy ngardd. Nhw ydy fy hoff flodau yn ystod yr haf, a hyfryd ydyw torri tusw i'w rhoi yn y tŷ.

Mae eu sawr nhw'n perfio drwy'r stafell, yn union fel mae Gwaith Tim *Agor y Llyfr* yn ei wneud drwy'r ysgolion yr ydym wedi bod ynddynt yr yn ystod y dair blynedd ddiwethaf a mawr yw diolch Ysgol Twm o'r Nant a Thremeirchion am ein gwaith. Byddwn yn cyflwyno llyfrynnau *Y Cam Nesaf* a baratowyd gan y Scripture Union i'r rheiny sy'n ymadael a mynd i'r Ysgol Uwchradd y nein Cyflwyniad olaf ym mis Gorffennaf, Os hoffech wirfoddoli dewch mewn cysylltiad: nestamarydavies@gmail.com 07870323790 NEU 01745822854. Dim ond awr a hanner o waith yw bob bore Llun a chwch fendith di-bendraw wrth weld ymateb y plant.

Dosbarthwyd llawer o gynnyrch yr Arddangosfa grefftau i Loches y Merched ac Alder Hey a maent yn hynod filch o'u cael.

Gobeithio y cewch Haf bendithiol
Pob Bendith
Nesta

Rhifyn Medi o'r Cadwyn Bro,
hoffai Gwenfyl dderbyn
newyddion a manylion
erbyn dydd Gwener Awst 18
Cysylltwch â hi naill a'i
drwy e-bost: gwenfyljones@btinternet.com
neu: 01745890417